



Cais safonol am Dystysgrif Cydnabod Rhyw

Dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan ymgeiswyr am Dystysgrif Cydnabod Rhyw nad ydynt yn ymgeisio gan ddefnyddio'r trywydd/llwybr ymgeisio amgen neu'r broses dramor.

Rhaid i ymgeiswyr y maent yn ymgeisio dan y broses hon ddangos eu bod wedi bod yn byw o fewn eu rhyw gaffaeledig drwy'r amser am o leiaf ddwy flynedd.

Cyn i chi gychwyn, a fydddech gystal â darllen y ddogfen 'Y Canllawiau Cyffredinol i Bob Defnyddiwr' (Y Canllawiau Cyffredinol), sy'n esbonio'r broses cydnabod rhyw. Sylwer bod Deddf Priodas (Partneriaid o'r Un Rhyw) 2013 a Deddf Priodas a Phartneriaeth Sifil (Yr Alban) 2014 wedi cyflwyno newidiadau i'r broses cydnabod rhyw, yn enwedig ar gyfer y rhai y maent yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Mae'r Canllawiau Cyffredinol yn esbonio canlyniadau ymgeisio am Dystysgrif Cydnabod Rhyw a'r dewisiadau sydd ar gael i chi, yn enwedig os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Dylai Nodiadau'r Cyfarwyddyd (gweler 'Cyfarwyddyd ynghylch Llenwi'r Ffurflen Gais Safonol am Dystysgrif Cydnabod Rhyw') ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau sydd gennych. Argymhellwn eich bod yn darllen y nodiadau cyn llenwi pob adran o'r ffurflen. Os byddwch yn ei chael hi'n anodd ei llenwi ar eich pen eich hun, dylech ofyn i ffrind neu rywun o sefydliad cymorth eich helpu, neu mae modd i chi ffonio tîm gweinyddol y Panel Cydnabod Rhyw (PCRh) ar 0300 123 4503.

Rhaid i chi lenwi adrannau **1, 2, 5, 6, 7, 10, 11, 12** a NAILL AI adran **3** NEU adran **4**, pa un bynnag sy'n berthnasol i chi, ac adran **8** neu **9** os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

A fydddech gystal â defnyddio inc du pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen hon.

O wneud cais, mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn ar gael mewn ffurfiau amgen. Cysylltwch â thîm gweinyddol PCRh ar 0300 123 4503 neu grpenquiries@justice.gov.uk

1. Eich manylion cyswllt

Defnyddir yr enwau a'r teitl y byddwch yn eu nodi isod yn yr holl ohebiaeth sy'n ymwneud â'ch cais.

1.1 Y teitl sy'n well gennych

1.2 Enw llawn yr ydych yn dymuno i ni ei ddefnyddio pan fyddwn yn cysylltu â chi

1.3 Cyfeiriad post

cod post

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

1.4 Sut fydddech yn dymuno i ni gysylltu â chi os bydd gennym unrhyw gwestiynau..

Post

Ffôn

E-bost

1.5 Os ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi dros y ffôn, nodwch rif yn ystod y dydd a'r amseroedd a'r diwrnodau pan fyddwch ar gael.

Rhif ffôn

Amseroedd a diwrnodau pan fyddaf ar gael

1.6 Os ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi trwy e-bost, nodwch eich cyfeiriad.

Cofiwch nad oes modd sicrhau bod e-bost yn ddiogel.

1.7 Os oes modd, rhestrwch unrhyw ddyddiadau pan na fyddwch ar gael am unrhyw gyfnodau y maent dros wythnos o hyd yn ystod y chwe mis nesaf.

2. Eich manylion personol

A. Defnyddir yr enwau a'r teitl a nodwyd gennych yn 1.2 yn yr holl ohebiaeth yn y dyfodol. A fydddech gystal â darllen y canllawiau yn ofalus cyn llenwi'r adran hon.

2.1 Cyfenw yr ydych yn dymuno iddo gael ei gofnodi ar Dystysgrif Cydnabod Rhyw.

2.2 Enw(au) cyntaf yr ydych yn dymuno iddo/iddynt gael eu cofnodi ar Dystysgrif Cydnabod Rhyw.

B. Er mwyn diogelu eich preifatrwydd, rhaid i chi roi cyfrinair i ni. Os byddwch yn ffonio'r Panel Cydnabod Rhyw er mwyn gwneud ymholiad am eich cais, byddwn yn gofyn i chi am y cyfrinair hwn cyn y byddwn yn rhoi unrhyw wybodaeth bersonol. Cyn dewis cyfrinair, a fydddech gystal â darllen y canllawiau am yr adran hon.

2.3 Cyfrinair (rhwng chwech a 10 llythyren. Ni ddylid defnyddio rhifau).

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

2.4 Pam bod hwn yn arwyddocaol i chi?

C. Dylech ddarllen y canllawiau i'r adrannau isod cyn i chi benderfynu a ydych yn dymuno darparu eich rhif Yswiriant Gwladol neu beidio.

2.5 Nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol yma

--	--	--	--	--	--	--	--	--

2.6 Os rhoddir Tystysgrif Cydnabod Rhyw lawn i chi, a ydych yn dymuno i'r Panel drosglwyddo'r wybodaeth hon i Gyllid a Thollau EM?

Ydw Nac ydw

Os Na, ac os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae rheidrwydd arnoch yn ôl y gyfraith i drosglwyddo'r wybodaeth hon i Gyllid a Thollau EM. Bydd hyn yn golygu anfon eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw a'ch rhif Yswiriant Gwladol i Gyllid a Thollau EM.

Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer trethdalwyr y DU yn unig. Nid oes modd i ni hysbysu'r awdurdodau yn Ynys Manaw neu Ynsoedd y Sianel

3. Gwybodaeth cofrestru genedigaeth ar gyfer genedigaethau a gofrestrwyd yn y DU

Os cofrestrwyd eich genedigaeth yn y DU, rhaid i chi lenwi'r adran hon. Mae hyn yn berthnasol hefyd os cawsoch eich geni i ddinesydd o'r DU mewn gwlad dramor, ond cawsoch eich cofrestru gan swyddog cofrestru y Lluoedd, neu gydag Uchel Gomisiwn neu Gonswl Prydeinig, neu os cawsoch eich geni ar long, awyren neu hofranlong a'ch cofrestru dan ddarpariaethau Morio Masnachol neu Hedfan Sifil.

Sylwer, os cawsoch eich mabwysiadu, bydd gofyn i ni gael manylion eich rhieni mabwysiol (fel y'u nodir ar eich tystysgrif geni).

3.1 Eich cyfenw fel y'i cofnodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu

3.2 Eich enw(au) cyntaf fel y'i/y'u cofnodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu

3.3 Rhyw fel y'i nodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu

Gwryw/Bachgen Benyw/Merch

3.4 Dyddiad geni

 / /

3.5 Man geni

3.6 Cyfenw y tad (os y'i rhestrwyd)

3.7 Enw(au) cyntaf y tad (os y'i/y'u rhestrwyd)

3.8 Enw'r fam cyn priodi

3.9 Enw(au) cyntaf y fam

Bydd yn helpu'r Cofrestrydd Cyffredinol perthnasol i ddod o hyd i'ch cofnod genedigaeth gwreiddiol os byddwch yn darparu'r wybodaeth ganlynol, os yw'n berthnasol i chi.

3.10 Os ydych yn gwybod eich bod wedi cael eich mabwysiadu yn y Deyrnas Unedig, ticiwch yma

3.11 Os cofrestrwyd eich genedigaeth gan wasanaeth cofrestru y Lluoedd, neu gydag Uchel Gomisiwn neu Gonswl Prydeinig, neu dan ddarpariaethau Morio Masnachol neu Hedfan Sifil, ticiwch yma

4. Gwybodaeth cofrestru genedigaeth ar gyfer genedigaethau a gofrestrwyd y tu allan i'r DU

Os cofrestrwyd eich genedigaeth y tu allan i'r DU, rhaid i chi lenwi'r adran hon. Os na, dylech symud ymlaen i adran 5.

A fyddech gystal â darparu eich tystysgrif geni wreiddiol neu gadarnhad swyddogol arall o'ch dyddiad geni a'ch rhyw ar eich genedigaeth, gan ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani isod.

4.1 Eich cyfenw fel y'i cofnodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu

4.2 Eich enw(au) cyntaf fel y'i/y'u cofnodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu

4.3 Rhyw fel y'i nodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu

4.4 Dyddiad geni

D	D	/	M	M	/	B	B	B	B
---	---	---	---	---	---	---	---	---	---

4.5 Gwlad lle y cofrestrwyd yr enedigaeth

Os nad oes modd i chi ddarparu darnau penodol o wybodaeth yn adran 4 uchod, a fyddech gystal â defnyddio'r blwch isod er mwyn esbonio pam (dylech barhau ar ddarn o bapur ychwanegol yn ôl y gofyn, a'i gynnwys yn rhestr y dystiolaeth a ddarparwyd gennych yn adran 11).

5. Amser a dreuliwyd yn byw yn eich rhyw newydd

Fel rhan o'ch cais, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eich bod wedi byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser am o leiaf ddwy flynedd (hyd at ddyddiad eich cais).

Gall y dystiolaeth fod ar ffurf llythyrau gan ddogfennau swyddogol megis pasbort neu drwydded yrru, llythyrau neu ddogfennau gan sefydliadau swyddogol, sefydliadau proffesiynol neu sefydliadau busnes, neu filiau cyfleustodau. Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd sy'n cydfynd â'r ffurflen hon am ragor o fanylion. Os yw'r dystiolaeth mewn gwahanol enw i'r un a ddefnyddiwyd gennych ar y ffurflen hon, bydd angen i chi ddangos ei bod yn berthnasol i chi.

5.1 A fyddech gystal â nodi'r dyddiad o'r adeg pan fo modd i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser

D	D	/	M	M	/	B	B	B	B
---	---	---	---	---	---	---	---	---	---

Defnyddiwch y blwch yn adran 11 y ffurflen gais hon er mwyn rhestru'r dystiolaeth y byddwch yn ei darparu.

6. Adroddiad Meddygol A (Darparuwyd gan ymarferydd ym maes dysfforia rhywedd)

Sylwer: nid yw'r Panel Cydnabod Rhyw yn comisiynu adroddiadau meddygol ar eich rhan.

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer adran 6 yn esbonio natur yr adroddiad sy'n ofynnol. A fydddech gystal â chynnwys yr adroddiad gwreiddiol a roddwyd i chi gan eich ymarferydd meddygol/seicolegydd cofrestredig; gyda'ch cais, a llenwi'r blychau isod.

6A.1 Enw'r ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r seicolegydd cofrestredig a wnaeth ddarparu'r adroddiad. Nid oes rhaid i'r ymarferwr weithio ym maes dysfforia rhywedd

6A.2 Cyfeiriad proffesiynol (os yw'r unigolyn yn gweithio o hyd)

6A.3 Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd

6. Adroddiad Meddygol B

Sylwer: nid yw'r Panel Cydnabod Rhyw yn comisiynu adroddiadau meddygol ar eich rhan.

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer adran 6 yn esbonio natur yr adroddiad sy'n ofynnol. A fyddech gystal â chynnwys yr adroddiad gwreiddiol a roddwyd i chi gan eich ymarferydd meddygol/seicolegydd cofrestredig; gyda'ch cais, a llenwi'r blychau isod.

6B.1 Enw'r ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r seicolegydd cofrestredig a wnaeth ddarparu'r adroddiad. Nid oes rhaid i'r ymarferwr gweithio ym maes dysfforia rhywedd

6B.2 Cyfeiriad proffesiynol (os yw'r unigolyn yn gweithio o hyd)

6B.3 Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd

7. Manylion y Datganiad Statudol Cydnabod Rhyw

Mae gofyn i chi ddarparu datganiad statudol sy'n gwneud sawl datganiad am eich amgylchiadau a'ch cais. Diben hyn yw sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf er mwyn dyfarnu Tystysgrif Cydnabod Rhyw. Rydym wedi darparu'r ffurflen hon er mwyn i chi ei defnyddio ar gyfer eich datganiad statudol. Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon a dilyn y cyfarwyddiadau yn y Nodiadau Cyfarwyddyd.

SYLWER: Nid yw hwn yr un fath â'ch datganiad statudol "newid enw".

Ar ôl i chi lenwi eich datganiad statudol, mae angen i unigolyn y maent wedi cael eu hawdurdodi i roi llw ardystio eich llofnod i'r datganiad statudol. Trowch at y Nodiadau Cyfarwyddyd am restr o'r rhai y maent wedi cael eu hawdurdodi i roi llw. A fyddech gystal â darparu'r wybodaeth am y tyst i'r datganiad statudol ym mlychau 7.1 – 7.5 isod.

7.1 Dyddiad y datganiad statudol

7.2 Enw'r unigolyn awdurdodedig y maent yn ardystio'r datganiad statudol

7.3 Cymhwyster sy'n galluogi'r unigolyn awdurdodedig i roi'r datganiad statudol

7.4 Cyfeiriad yr unigolyn awdurdodedig

7.5 Rhif ffôn cyswllt yr unigolyn awdurdodedig yn ystod y dydd

A fyddech gystal â chynnwys y datganiad statudol gwreiddiol gyda'ch cais

Gwybodaeth bellach yr ymgeisydd

7.6 A ydych yn briod ar hyn o bryd? Ydw Nac ydw

7.7 A ydych chi mewn partneriaeth sifil ar hyn o bryd? Ydw Nac ydw

7.8 Os ydych wedi ateb Ydw i gwestiwn 7.6 neu 7.7

Rydw i'n ymgeisio am Dystysgrif Cydnabod Rhyw **interim**

Rydw i'n ymgeisio am Dystysgrif Cydnabod Rhyw **lawn**

8. Priodas (a fyddech gystal â llenwi'r adran hon os ydych yn briod ar hyn o bryd).

Mae modd i chi wneud cais i'r Panel Cydnabod Rhyw am TCRh wrth i chi barhau i fod yn briod:

- Os wnaethoch chi briodi dan gyfraith Cymru a Lloegr (gelwir eich priodas yn briodas 'warchoddedig');
- Os gweinyddwyd eich priodas yn yr Alban (gelwir eich priodas yn 'briodas warchoddedig Albanaidd');
- Os wnaethoch chi briodi dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU (gelwir eich priodas yn briodas 'warchoddedig').

Bydd angen i'ch priod gytuno y gall y briodas barhau ar ôl i chi fod trwy'r broses cydnabod rhyw trwy lenwi datganiad statudol.

8.1 A yw'ch priodas yn briodas warchoddedig neu'n briodas warchoddedig Albanaidd? Ydy Nac ydy

8.2. Os yw'ch priodas yn briodas warchoddedig neu'n briodas warchoddedig Albanaidd, a ydych chi a'ch priod yn bwriadu parhau i fod yn briod ar ôl i chi fod trwy'r broses cydnabod rhyw Ydym Nac ydym

A fyddech gystal â darparu eich tystysgrif priodas wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni.

8.3 A yw'ch priod wedi gwneud datganiad cydsynio statudol? Ydynt Nac ydynt

8.4 Os wnaethoch ateb Ydynt yn 8.3, a yw'n amgaeedig gyda'r cais hwn? Ydy Nac ydy

Ar ôl cwblhau adran 8, ewch i adran 10.

Adran 9: Partneriaid Sifil

(a fyddech gystal â llenwi'r adran hon os ydych mewn partneriaeth sifil ar hyn o bryd)

Os yw'ch partneriaeth sifil dan gyfraith Cymru a Lloegr neu os yw wedi cael ei chofrestru yn yr Alban, mae modd i'r ddau bartner wneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhyw ar yr un pryd. Os byddant yn llwyddiannus, mae modd i chi gael eich tystysgrifau llawn ar yr un pryd, heb yr angen i derfynu eich partneriaeth sifil yn eich rhyw enedigol yn gyntaf.

9.1 A yw'ch partneriaeth sifil dan gyfraith Cymru a Lloegr neu a yw'ch partneriaeth sifil wedi'i chofrestru yn yr Alban? Ydy Nac ydy
Os Ydy, atebwch 9.2

9.2 A ydych chi a'ch partner yn gwneud cais cydnabod rhyw ar yr un pryd? Ydym Nac ydym

A fyddech gystal â darparu eich tystysgrif partneriaeth sifil wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni

10. Talu

Amlinellir y ffi er mwyn gwneud cais am dystysgrif cydnabod rhyw mewn taflen ar wahân o'r enw T455 - 'Y Canllawiau Cyffredinol i bob defnyddiwr'.

Os ydych yn gymwys i fanteisio ar y cynnig lle na fydd gofyn i chi dalu'r ffi, mae modd i chi lenwi ffurflen EX160 - 'Ymgeisio am help gyda ffioedd' ar bapur neu ar-lein. Gall canllaw EX160A - 'Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd' roi rhagor o wybodaeth i chi am sut i ymgeisio.

Os na fyddwch yn darparu tystiolaeth, neu'r ffi gywir, ni chaiff eich cais ei brosesu nes bydd y Panel Cydnabod Rhyw yn cael y taliad neu'r ddogfennaeth gywir.

10.1 A oes gofyn i chi dalu ffi o £5? Oes Nac oes, rydw i'n gwneud cais am help i dalu ffioedd

Help i dalu ffioedd

Rydw i'n gwneud cais am help i dalu'r ffioedd gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein – gov.uk/help-with-court-fees

neu

Rydw i'n gwneud cais am help i dalu'r ffioedd ac atodaf fy ffurflen gais EX160

Os ydych chi wedi llenwi cais Help i dalu Ffioedd ar-lein, byddwch yn cael cyfeirnod Help i dalu Ffioedd.

Dylech nodi'r cyfeirnod hwn yn y blwch isod.

Help i dalu Ffioedd – Cyfeirnod	H	W	F	-	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	-	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
---------------------------------	----------	----------	----------	---	----------------------	----------------------	----------------------	---	----------------------	----------------------	----------------------

Dull Talu

Os bydd gofyn i chi dalu ffi am eich cais, a fydddech gystal â nodi sut y byddwch yn ei thalu. Os byddwch yn talu gyda siec neu archeb bost, rhaid i chi gynnwys hon gyda'ch ffurflen gais.

- Siec** - yn daladwy i HM Courts & Tribunals Service
- Archeb Bost** - yn daladwy i HM Courts & Tribunals Service
- Cerdyn Debyd/Credyd** (gweler isod)

Os hoffech dalu gyda Cherdyn Debyd/Credyd, cysylltwch â gweinyddwr PCRh ar 0300 123 4503 cyn pen 10 diwrnod o gael nodyn yn cydnabod eich cais.

Dim ond dros y ffôn y bydd modd i ni gymryd taliadau trwy gyfrwng cerdyn.

At ddibenion diogelwch, dylech sicrhau bod eich cyfeirnod PCRh a'ch cyfrinair gyda chi wrth law.

11. Rhestr wirio o'r dogfennau sy'n cefnogi eich cais

Bydd y rhestr wirio hon yn eich helpu chi a'r Panel Cydnabod Rhyw i sicrhau eich bod wedi cynnwys popeth y mae gofyn i chi ei gyflwyno gyda'ch cais. A fydddech gystal â rhestru pob darn o dystiolaeth y byddwch yn ei chynnwys gyda'ch cais. Byddwn yn dychwelyd y dogfennaeth i chi ar ôl iddi gael ei harchwilio.

Dogfennau	Amgaeedig
Datganiad Statudol (Sylwer na fydd y ddogfen hon yn cael ei dychwelyd)	<input type="checkbox"/>
Datganiad statudol eich priod, pan fo hynny'n briodol	<input type="checkbox"/>
Eich tystysgrif geni wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni	<input type="checkbox"/>
Os ydych yn briod ar hyn o bryd, eich tystysgrif briodas wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni	<input type="checkbox"/>
Os ydych mewn partneriaeth sifil ar hyn o bryd, eich tystysgrif partneriaeth sifil wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni	<input type="checkbox"/>
Copi o'ch archddyfarniad(au) yn terfynu'r briodas neu'r bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>
Os yw'ch priod neu'ch partner sifil wedi marw, copi o'u tystysgrif marwolaeth	<input type="checkbox"/>
Copi o'r holl ddogfennau newid enw neu ddogfennau eraill er mwyn dangos unrhyw newidiadau i'r enw sy'n ymddangos ar eich tystysgrif geni i'ch enw cyfredol	<input type="checkbox"/>
Adroddiad Meddygol A – Nodwch enw darparwr yr adroddiad meddygol a dyddiad yr adroddiad	<input type="checkbox"/>
Adroddiad Meddygol B – Nodwch enw darparwr yr adroddiad meddygol a dyddiad yr adroddiad	<input type="checkbox"/>

Dogfennau	Amgaeedig
<p>Tystiolaeth eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser am o leiaf 2 flynedd cyn dyddiad y cais (Rhestrwch y dogfennau)</p>	<input type="checkbox"/>
<p>A fydddech gystal â rhestru unrhyw lythyrau neu ddogfennau eraill yr ydych chi wedi eu cynnwys gyda'ch cais</p>	<input type="checkbox"/>

12. Datganiadau

Os cofrestrwyd eich genedigaeth yn y DU, er mwyn prosesu eich cais, mae angen i'r Panel Cydnabod Rhyw drosglwyddo eich manylion i'r Cofrestrydd Cyffredinol perthnasol. Yn yr un modd, os cofrestrwyd eich priodas neu'ch partneriaeth sifil yng Nghymru a Lloegr neu'r Alban, ac os ydych yn gwneud cais cydnabod rhyw wrth i chi barhau i fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, bydd angen i'r Panel drosglwyddo eich manylion i'r Cofrestrydd Cyffredinol priodol.

Os byddwch yn cydsynio isod, bydd y Cofrestrydd Cyffredinol yn cysylltu â chi (os bydd eich cais yn llwyddiannus) er mwyn eich hysbysu o'r dewisiadau ynghylch eich tystysgrif geni newydd (a phan fo hynny'n briodol, tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil newydd).

Rydw i'n rhoi fy nghaniatâd i'r Cofrestrydd Cyffredinol gysylltu â mi mewn perthynas â thystysgrif geni/priodas/partneriaeth sifil newydd, pan fo hynny'n briodol.

Tystiaf bod yr holl wybodaeth a roddwyd yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Deallaf bod gwneud cais anwir yn drosedd.

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad

Ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen a nodi'r dyddiad, dylech ei hanfon, gyda'r holl ddogfennaeth ategol, at:

GRP
PO Box 9300
Leicester
LE1 8DJ

Fe'ch cynghorir yn gryf i anfon eich cais trwy'r post cofrestredig.

Mae Adran 22 Deddf Cydnabod Rhyw 2004 yn diogelu'r wybodaeth yn eich ffurflen gais a gwybodaeth am eich hanes rhyw os bydd eich cais yn llwyddiannus. Dim ond yn unol â'r hyn a ganiateir gan y Ddeddf y bydd y data y byddwch yn ei ddarparu yn cael ei brosesu. Caiff ei brosesu yn bennaf er mwyn gwneud penderfyniad am eich cais (ac unrhyw achosion cyfreithiol cysylltiedig) ac er mwyn cynnal y Gofrestr Cydnabod Rhyw. Mae Nodiadau Cyfarwyddyd y ffurflen gais hon a'r Daflen Esboniadol yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch sut y gallai eich data gael ei brosesu. Ni ddatgelir gwybodaeth amdanoch chi oni bai pan fo'r gyfraith yn caniatáu hynny neu pan fyddwch chi wedi rhoi eich caniatâd.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw Rheolydd Data y Panel a'r Ysgrifenyddiaeth Cydnabod Rhyw at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998. Os ydych yn dymuno cael gwybod mwy am y wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, neu'r ffordd y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth, mae modd i chi weld manylion ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sef www.justice.gov.uk/about/datasharingandprotection.htm

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn prosesu gwybodaeth personol amdanoch chi yng nghyd-destun achosion triwlynlys. I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i: <https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter>. I gael copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 123 1024 Ffôn testun 18001 0300 123 1024. Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn Testun 18001 0300 790 6234.